Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mrs A Williams**

7.09.26

**Annwyl Rieni a Gofalwyr,**

Hoffem ymddiheuro am yr oedi wrth lansio ein ap ysgol newydd. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r cwmni er mwyn sicrhau bod popeth yn barod ac yn gweithio'n effeithiol cyn ei lansio. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i anfon llythyron adref, rhannu gwybodaeth drwy galendr y wefan ac ar ein tudalen Instagram swyddogol.

**CLYBIAU AR ÔL YSGOL DECHRAU 14.09.26**

- Dydd Llun: Clwb Garddio (Blwyddyn 5 a 6) 3:05pm - 4:45pm
- Dydd Mercher: Clwb Hwyl (Blwyddyn 3 a 4) 3:05pm - 3:50pm

Nid oes angen archebu lle. Sicrhewch fod eich plentyn yn hysbysu ei athro/athrawes dosbarth ei fod yn aros ar gyfer y clwb.

**GWEITHDY RHIENI MEITHRIN A DERBYN**

Cynhelir gweithdy stori i rieni a'u plentyn o'r Meithrin a Derbyn ar 23 Medi am 9:00yb. Mae lle i 10 rhiant fynychu. Os hoffech archebu lle, cysylltwch â'r swyddfa drwy e-bost neu dros y ffôn.

**CODI ARIAN I ELUSEN FELINDRE**

Ar ddiwedd y mis byddwn yn cynnal taith gerdded/rhedeg noddedig a gwisgo gwyrdd i godi arian i gefnogi gwaith gwerthfawr Canolfan Ganser Felindre. Bydd rhagor o wybodaeth a ffurflenni noddi yn cael eu hanfon adref yn fuan. Dros y flwyddyn hon, rwyf wedi penderfynu ymgymryd â nifer o heriau er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen arbennig hon. Mae'r rhain yn cynnwys cerdded Llwybr Arfordir y Mileniwm (21km), rhedeg Hanner Marathon Caerdydd (21km) a rhedeg Marathon Llundain.

**CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON (CRhA)**

Mae ein CRhA yn chwilio am aelodau newydd. Cynhelir cyfarfod cyn hanner tymor. Os hoffech gymryd rhan a chefnogi'r ysgol, cysylltwch â'r swyddfa.

**SIWMPERI BLWYDDYN 6**

Diolch i bawb sydd wedi archebu eisoes. Mae archeb arall yn ein cyrraedd yfory. Mae archeb ychwanegol ar gael ar ParentPay os hoffech brynu rhagor o siwmperi. Hoffem atgoffa rhieni mai siwmperi du yn unig sydd wedi'u cytuno ar gyfer eleni a dim crysau t.

Ymddiheurwn unwaith eto am yr oedi gyda'r ap a gobeithiwn roi diweddariad pellach i chi cyn diwedd yr wythnos.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.
Yn gywir,
A Williams
Pennaeth / Headteacher